Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

GwerthwchiGymru

# Canllaw i Gyflenwyr - Canfod Cyflenwr

## Beth yw *Canfod Cyflenwr*?

Mae *Canfod Cyflenwr* yn gyfeiriadur chwilio am gyflenwyr ar gyfer y Sector Cyhoeddus yng Nghymru. Mae'n adeiladu ar y wybodaeth a ddelir eisoes ar GwerthwchiGymru, gan alluogi cyflenwyr i ddarparu gwybodaeth fanwl i brynwyr am y nwyddau, y gwaith neu'r gwasanaethau y gallant eu darparu i'r Sector Cyhoeddus. Bydd y gwasanaeth yn helpu i greu mwy o gysylltiadau rhwng busnesau yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

Bydd prynwyr yn defnyddio'r offeryn i ddod o hyd i gyflenwyr ar gyfer dyfynbrisiau gwerth isel/risg isel. Mae'n bosibl y bydd gwell siawns y caiff 'Dyfynbris Cyflym' ei anfon i'ch cofrestriad os byddwch yn cwblhau proffil *Canfod Cyflenwr*. Gallant hefyd ddefnyddio'r wybodaeth i ddadansoddi marchnadoedd cyflenwi penodol.

## Sut mae *Canfod Cyflenwr* yn gweithio?

Os hoffech gael eich cynnwys yn y cyfeiriadur *Canfod Cyflenwr*, bydd yn rhaid i chi greu proffil *Canfod Cyflenwr* drwy lenwi ffurflen fer a lanlwytho logo/cyfeiriad gwefan eich cwmni (dewisol).

Yna gall prynwyr ddefnyddio gwahanol baramedrau i chwilio drwy'r cyfeiriadur *Canfod Cyflenwr* ar GwerthwchiGymru. Os bydd proffil eich cwmni yn cyfateb i'r paramedrau a nodwyd, bydd y prynwyr yn gallu gweld eich proffil.

## Faint mae *Canfod Cyflenwr* yn ei gostio?

Gall cyflenwyr a phrynwyr ddefnyddio *Canfod Cyflenwr* **am ddim**.


## A allaf gael mwy nag un proffil *Canfod Cyflenwr*?

Er mai dim ond un proffil *Canfod Cyflenwr* y gallwch ei gael o ran eich cofrestriad unigol, gall cydweithwyr eraill yn eich sefydliad gofrestru hefyd ar GwerthwchiGymru a llunio proffiliau ar wahân. Gall hyn fod yn ddefnyddiol os yw cydweithwyr yn eich sefydliad yn delio â gwahanol feysydd gwaith neu'n gweithio mewn lleoliadau gwahanol.

**Sut gallaf gwblhau fy mhroffil *Canfod Cyflenwr*?**

Ceir dolen i'r dudalen manylion *Canfod Cyflenwr* yn Panel Rheoli'r Cyflenwr y gellir mynd iddo drwy fewngofnodi ar GwerthwchiGymru.


## Panel Rheoli'r Cyflenwr



Wrth nodi manylion eich proffil Canfod Cyflenwr, efallai y byddwch am gadw eich gwaith yn rheolaidd drwy glicio ar y botwm Cadw. Os na fyddwch wedi nodi manylion o fewn yr 20 munud diwethaf, bydd y wefan yn eich allgofnodi am resymau diogelwch ac efallai y byddwch yn colli'r testun a nodwyd gennych. Er mwyn osgoi colli testun efallai y gallwch baratoi disgrifiad eich cwmni mewn dogfen word cyn cwblhau'r ffurflen.

Ar ôl i chi gyhoeddi'ch manylion ar *Canfod Cyflenwr*, gallwch wneud newidiadau yn y dyfodol drwy fynd i'ch Proffil Canfod Cyflenwr, golygu'r meysydd perthnasol a chlicio ar y botwm Cadw.

***Manylion eich Proffil Canfod Cyflenwr***


Manylion eich Proffil Canfod Cyflenwr

Cadw
Canslo

* Cwmni: Millstream Associates Ltd
* Cyfeiriad E-bost: info@millstream.eu
Gwefan: http://www.millstream.eu
* Ffôn: 01224 636999
* Cyfeiriad: 10 Queens Road
* Tref/Dinas: Aberdeen
* Cod post: AB15 4ZT


**Enw'r cwmni** - Nodwch enw eich cwmni fel yr hoffech iddo ymddangos yn y cyfeiriadur. Gall y prynwr chwilio am enw'r cwmni a nodir.

**Cyfeiriad e-bost** - Nodwch y cyfeiriad e-bost fel yr hoffech iddo ymddangos yn y cyfeiriadur. Caiff y cyfeiriad e-bost a nodir yma ei arddangos ar eich proffil er mwyn i brynwyr allu cysylltu â chi gydag ymholiadau y tu allan i system GwerthwchiGymru. **Os caiff eich cofrestriad ei ddewis ar gyfer Dyfynbris Cyflym, caiff y gwahoddiad ei anfon at eich cyfeiriad e-bost cofrestredig.**


**Gwefan (dewisol) -** Nodwch gyfeiriad gwefan eich cwmni fel yr hoffech iddo ymddangos yn y cyfeiriadur. Caiff y cyfeiriad hwn ei droi'n hyperddolen ar eich proffil, gan alluogi'r prynwr i ymweld â'ch gwefan i gael rhagor o wybodaeth am eich cwmni.

**Cyfeiriad -** Nodwch gyfeiriad eich cwmni fel yr hoffech iddo ymddangos yn y cyfeiriadur. Nodwch y cod post ar gyfer y cyfeiriad uchod. Gall y prynwr chwilio am y cod post hefyd.

**Rhanbarthau -** Dewiswch y rhanbarth(au) yng Nghymru yr hoffai eich cwmni wneud busnes ynddo/ynddynt. Gall prynwyr hefyd chwilio am gyflenwyr yn ôl rhanbarthau. Er mwyn dewis rhanbarth, amlygwch y rhanbarth ac yna cliciwch ar "Ychwanegu". Caiff y rhanbarth hwnnw ei lusgo draw i'ch blwch 'rhanbarth a ddewiswyd'.



**Disgrifiad o'r Cwmni -** Nodwch ddisgrifiad o'ch cwmni o ran y nwyddau a'r gwasanaethau a ddarperir gennych. Ni all y prynwr chwilio am y disgrifiad hwn ond caiff ei arddangos ar eich proffil *Canfod Cyflenwr*. Gallwch nodi uchafswm o 4000 o nodau.



* Cwmni Disgrifiad:

- Millstream are a team of specialists who have extensive knowledge and considerable experience in providing a range of eProcurement systems and services to purchasers in the public sector. We operate Public Contracts Scotland as well as the national procurement portals for Ireland and Norway.

- The Millstream training team provide public sector procurement training to both suppliers and purchasers. Our

Mae 3053 o nodau yn weddill gennych


**Geiriau allweddol -** Gallwch nodi hyd at chwe gair allweddol sy'n disgrifio'r cynhyrchion neu'r gwasanaethau a ddarperir gennych ac sy'n gweithredu fel geiriau allweddol y gall y prynwr chwilio amdanynt. Nid oes angen i chi nodi chwech. Gallwch nodi 50 o nodau ym mhob blwch ac os oes angen, gallwch ddefnyddio mwy nag un gair ym mhob blwch. Bydd y system chwilio yn dod o hyd i ddechrau pob gair a nodir gennych. Er enghraifft, pe bai prynwr yn mynd ati i chwilio am "plym", byddai'n dod o hyd i'ch proffil os yw'r geiriau 'plymio', plymwyr' neu 'pob math o waith plymio' wedi'u nodi ynddo.


Cwmni Uchafbwyntiau:


Uchafbwynt 1: Procurement
Uchafbwynt 2: Training
Uchafbwynt 3: Portals
Uchafbwynt 4: eProcurement
Uchafbwynt 5: Consultancy
Uchafbwynt 6: Notice Alert Service

Caiff geiriau allweddol eu harddangos ar eich proffil *Canfod Cyflenwr*.

**Logo (dewisol) -** Gallwch lanlwytho logo cwmni i'w gynnwys yn eich proffil *Canfod Cyflenwr*. Dylai logos fod yn ddelweddau e.e. JPEG, Gif, Bmp ac ni ddylai'r ffeil fod yn fwy na 0.5Mb. Er mwyn lanlwytho eich logo, cliciwch ar y ddolen 'Ychwanegu/Newid Logo'.





Bydd hyn yn eich tywys i dudalen newydd lle y gallwch lanlwytho eich logo. Er mwyn gwneud hynny, cliciwch ar 'Pori' wrth ymyl "Lanlwytho Logo".





Bydd hyn yn agor cyfeiriadur ffeiliau eich cyfrifiadur er mwyn i chi allu chwilio am eich logo. Dewiswch y logo fel bod estyniad y ffeil yn ymddangos yn y blwch "Lanlwytho Logo" ac yna cliciwch ar "Ychwanegu". Bydd bar cynnydd yn ymddangos sy'n nodi statws y ffeil sy'n cael ei lanlwytho.

Unwaith y bydd eich logo wedi'i lanlwytho'n llwyddiannus, cewch eich tywys yn ôl i'r dudalen sy'n nodi eich manylion *Canfod Cyflenwr* i gwblhau a chadw eich proffil.

**Rwy'n BBaCh (dewisol) -** Gall cyflenwyr ddiffinio eu hunain hefyd fel BBaCh. At ddibenion *Canfod Cyflenwr*, caiff BBaCh ei ddiffinio fel sefydliad â llai na 250 o gyflogeion.


Rwy'n BBaCh: ☑
Sefydliad â llai na 250 o gyflogeion yw BBaCh (Busnes Bach a Chanolig).

Rydych nawr yn barod i gadw eich proffil a'i gynnwys yn y cyfeiriadur *Canfod Cyflenwr*. Er mwyn gwneud hynny, sgroliwch i frig y dudalen a chliciwch ar "Cadw". Ac yna cliciwch ar "**Cadw**".


Supplier Finder Profile Details
* Company: DWD Plant Hire Ltd
* Email Address: info@dwdplanthire.co.uk
Website: http://www.dwdplanthire.co.uk
* Phone: 0844 561 0678
* Address: Cardiff East Industrial Estates
* Town/City: Cardiff
* Postcode: CF52 3HJ
2. Publish
1. Save
Cancel

Cewch weld sut y bydd eich proffil *Canfod Cyflenwr* yn edrych yn offeryn chwilio'r prynwr. Os hoffech newid eich proffil, cliciwch ar 'Golygu eich Manylion *Canfod Cyflenwr*' a chewch eich tywys yn ôl i'r dudalen flaenorol. Os ydych yn fodlon ar eich proffil, cliciwch ar 'Dychwelyd i'r Hafan i Aelodau'.

**Supplier Finder Preview Details**

**Millstream Associates Ltd** **Ffôn: 01224 636999**
10 Queens Road, Aberdeen, AB15 4ZT Ewch i'r Wefan
info@millstream.eu

Millstream

- Procurement
- Training
- Portals
- eProcurement
- Consultancy
- Notice Alert Service

- Millstream are a team of specialists who have extensive knowledge and considerable experience in providing a range of eProcurement systems and services to purchasers in the public sector. We operate Public Contracts Scotland as well as the national procurement portals for Ireland and Norway.

- The Millstream training team provide public sector procurement training to both suppliers and purchasers. Our training is provided either by way of scheduled training courses or, if preferred, through in-house courses tailored to match your needs. Our trainers are business development experts and public sector procurement professionals who have an extensive knowledge of the entire procurement process and are therefore perfectly placed to guide you through the tendering process.


- We also offer services through our Tenders Direct product to private companies from all sectors throughout Europe who are seeking new business opportunities.

**Note:** This supplier is registered on Constructionline - 98765 (*Status - Test response*)

Edit your Supplier Finder Details | Return to Member Home Page

## Categorïau Cynhyrchion

Gall y prynwr hefyd ddefnyddio'r strwythur Categorïau Cynhyrchion sy'n bodoli eisoes fel paramedr chwilio yn *Canfod Cyflenwr*. Felly, caiff eich proffil *Canfod Cyflenwr* ei gysylltu â'r categorïau a ddewiswyd gennych yn eich proffil rhybuddion. Dylech sicrhau eich bod wedi cynnwys y categorïau priodol yn eich proffil rhybuddion. Gallwch greu neu newid eich proffil drwy fynd i'r ddolen 'Proffil Rhybuddion' yn eich Panel Rheoli.




## A allaf newid fy mhroffil *Canfod Cyflenwr* ar ôl iddo gael ei gwblhau?

Gallwch newid eich proffil *Canfod Cyflenwr* unrhyw bryd drwy ddilyn yr un camau ag a gymerwyd pan wnaethoch ei gwblhau y tro cyntaf.

## A allaf gadw rhan o'm proffil *Canfod Cyflenwr*?

Os ydych wedi cwblhau eich proffil ond nad ydych am iddo ymddangos yn y cyfeiriadur eto, cliciwch ar 'Cadw' ond peidiwch â phwyso 'Cyhoeddi'. Bydd hyn yn cadw'r manylion a nodwyd gennych ond ni fydd yn gosod eich proffil yn offeryn chwilio'r prynwr.

## Faint o amser y mae'n ei gymryd i'm proffil *Canfod Cyflenwr* ymddangos yn y cyfeiriadur?

Bydd yn cymryd tua 10 munud i fanylion proffil a gwblhawyd ymddangos yn y cyfeiriadur *Canfod Cyflenwr*.